Cofnodion Pwyllgor Cynllunio ac Amcanion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar 6ed Hydref yn Neuadd y Sir am 8.15pm

Yn bresennol: Maer Mrs Ros Bellamy, Dirprwy Faer Colin Jenkins, Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Pamela Steane Price, Cyng David A Jones Cyng Paul Faulkner, Cyng Roy Davies Mr R Hugh Griffiths (Swyddog Technegol),

Ymddiheuriadau :Dim

6247/Hyd /04 : Ceisiadau cynllunio Cefnogwyd

E08049 llawn, cynhwysydd diogel person post, cyffordd Latimer Rd /Alan Rd, Llandeilo

E08048, llawn, cynhwysydd diogel person post, mynediad y Clwb Sboncen Squash Club, Llandeilo

E08047, llawn, cynhwysydd diogel person post, 4 New Road ger yr archfarchnad

E08046, llawn, cynhwysydd diogel person post, mynediad Fairacre, Cynevor Avenue, Llandeilo

Gofynnodd y cynghorwyr am anfon llythyr ynglŷn â phwy fyddai yn cynnal a chadw'r blychau a hefyd i ofyn i'r Post Brenhinol ail baentio'r blychau os bydd angen i gyd fynd â chynllun treftadaeth yr ardal ,petai cynllun o'r fath yn cael ei fabwysiadu

E07550, symud amodau cynllunio 15a a 15b Bank Buildings Llandeilo

E08107, adfer cymeriad 11 Bank Buildings, tra bod y newidiadau yn cydweddu â chymeriad yr ardal..

E08149, Gwaith Atgyfnerthu ac ailwampio adeilad rhestredig 3 Bank Terrace . Roedd y cynghorwyr yn ystyried hwn yn gynnig ardderchog a'r math yma o atgyweirio yn ddymunol tu hwnt yn y dre.

E08224, llawn , ystafell ddosbarth symudol yn yr Ysgol Gynradd . Roedd hwn yn ateb ardderchog yn nhyb y cynghorwyr i'r broblem o ddiffyg lle yn yr ysgol.

E08223, llawn, dwy ffenestr do velux yn Pentwyn, Clarence Rd, Llandeilo

6248/Hyd /04 Ceisiadau Cynllunio a dynnwyd yn ôl :
Tynnwyd yn ôl ceisiadau E05475, a E/05692 i 73 Rhosmaen

6249/Hyd /04 Ceisiadau cynllunio a ganiatawyd :
E07527, ffasgia ac arwydd Cymdeithas Adeiladu'r Principality, Rhosmaen St, Llandeilo
E07550, symud amodau i ddau dy 3 llawr yn 15a a 15b Bank Buildings, Llandeilo

6250/Hyd/04 **Trafnidiaeth a goleuo**

1. Aflwyddiannus fu cais y cyngor am grant Wyl y Goleuni/ Festival of Lighting

2. Yn dilyn cyngor Mr Roy Griffiths fe fyddai cynlluniau am oleuadau'r Nadolig yn parhau. Gwahoddwyd Martin Rees Electrical ynghyd â dau gontractwr trydanol arall i roi pris am osod y goleuadau ac i fod yn barod i weithio yn ystod cyfnod y Nadolig

Hugh Griffiths i gysylltu gyda'r contractwyr trydanol.

3. Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau fod blychau stryd trydanol cywir yn eu lle erbyn y flwyddyn nesaf.

a) Cysylltir â Nigel Francis ynglŷn â gosod colofnau newydd ar hyd heolydd ,nad ydynt yn briffyrdd ,i ddal baneri ,ac i weld os bydd goleuadau Cyngor Tref Llandeilo yn medru cael eu gosod ar flychau cyswllt golau stryd

Clerc i gysylltu gyda Hugh Griffiths i weld os taw ef neu hi fydd yn siarad â Nigel Francis

b) Blychau cysylltu pŵer ar-stryd Western Power yn debygol o gostio £1200 yr un ac mae'n debyg taw tri o leiaf fydd angen . Byddai prynu goleuadau i'w wasgaru ar draws sawl blwyddyn.

4. .Roedd preswylwyr yn bryderus fod gyrwyr yn teithio y ffordd anghywir drwy'r sustem unffordd gan nad oedd lle i barcio ac felly yn cau mynedfeydd i dai preifat ger adeiladau'r banc. Byddai'r clerc yn cysylltu â Sgt N Jones yn Llanymddyfri i ofyn iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod llawn nesaf i drafod hyn.

Clerc i ffonio Neal Jones

6251/Hyd /04: **Mynwent Derbyniwyd cwynion ynglŷn â chyflwr y fynwent, doedd y lle ddi m yn** ddeniadol i dwristiaid gyda'r borfa yn hir, sbwriel a photeli gweigion ayb o gwmpas. Nid cyfrifoldeb y cyngor oedd torri'r borfa ond fe fydd hyn yn cael ei grybwyll i'r ficer gan i'r Cyngor roddi cyfraniad i helpu gyda'r gwaith. Bydd ymholiadau ynglŷn â sut oedd yr arian wedi'i wario er mwyn anfon llythyr mewn ateb i'r cwyn .

Clerc i ysgrifennu am gyfrifon yr eglwys .